

Mae Conwy yn tyfu ac yn datblygu
Mae ein Cymunedau bob amser yn newid.
Mae pobl yn symud i mewn ac mae eraill yn symud allan.
Mae angen cartrefi, ysgolion, busnesau, ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth newydd
Ac mae technoleg yn golygu ein bod ni'n byw ac yn gweithio mewn ffyrdd newydd.
Mae hyn yn dod â llawer o gyfleoedd ond hefyd rhai heriau

Mae angen inni gynllunio rŵan ar gyfer y dyfodol

Mae cynllunio'n bwysig – mae yna lawer i feddwl amdano:

- Mae a wnelo â chadw a gwella be' sydd gennon ni,
- Deall cysylltiadau trafnidiaeth, a symudiad pobl a nwyddau.
- Datblygu tir ar gyfer cartrefi a swyddi newydd
- Gwneud yn fawr o'n hadnoddau, ein cyfleusterau a'n gwasanaethau
- Cael y partneriaid buddsoddi a datblygu iawn
- Darparu ysgolion lleol, gwasanaethau iechyd, a chyfleoedd hamdden i bobl
- Diogelu ein hadnoddau naturiol, ein treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd.

Dydy hyn ddim yn newydd. Mae ein Cynllun Datblygu Lleol presennol wedi bod ar waith am y 5 mlynedd diwetha', ond mae'n bryd inni feddwl am gael un newydd.

Mi fydd y cynllun newydd yn cwmpasu'r 15 mlynedd nesaf.

Mi fydd yn ein helpu ni i ddilyn cyfreithiau, i gynnwys cymunedau mewn gwaith cynllunio ac i'w gwneud hi'n haws gweithio gyda busnesau, a siroedd cyfagos.

Rydyn ni wedi dechrau gwaith ar y cynllun newydd

Hyd yma, rydyn ni wedi:

Cam 1 – edrych ar be' weithiodd yn dda dros y 5 mlynedd diwetha' a be' sydd ei angen wrth symud ymlaen.

Cam 2 – sefydlu'r Cytundeb Cyflenwi yma ar gyfer ysgrifennu'r Cynllun newydd.

Cam 3 – edrych ar awgrymiadau tirlfeddianwyr a datblygwyr ynglŷn â safleoedd.

Mae hyn wedi rhoi llawer o wybodaeth ac opsiynau inni.

Rydyn ni rŵan wedi cyrraedd Cam 4 – Rydyn ni eisiau i bobl chwarae rhan mewn siapio'r cynllun yma.

Mae angen inni wneud y penderfyniadau iawn. Felly, mae angen inni gael gwybod be' ydy'ch barn chi:

- a ddylen ni ganolbwyntio ar ddatblygu ar hyd yr arfordir neu yn y sir drwyddi draw?
- pa drefi a phentrefi yn ein sir ydy'r llefydd gorau ar gyfer cartrefi newydd?
- sut allwn ni ddiogelu ein hamgylchedd fel bod cenedlaethau i ddod yn gallu ei fwynhau?
- sut allwn ni ddefnyddio tir datblygu orau?
- sut allwn ni ddefnyddio ystadegau i ragweld twf dros y 15 mlynedd nesaf?
- faint o gartrefi newydd ydych chi'n meddwl sydd eu hangen, mewn gwirionedd?
- faint o swyddi fydd eu hangen?
- a ddylen ni adeiladu safleoedd busnes newydd neu ehangu'r rhai sydd gennon ni'n barod?

Rydyn ni eisiau i chi chwarae rhan gan eich bod chi'n gwybod be' sy'n bwysig yn eich ardal chi.